Cydnabyddir bod mwg baco yn yr amgylchedd yn berygl i iechyd ysmygwyr, a hefyd i bobl nad ydynt yn ysmygu, a hynny trwy ysmygu goddefol. Yn ogystal â chreu perygl i bobl gael clefydau y gellid eu hatal a marw o flaen eu hamser, gall ysmygu hefyd achosi llid ar y llygaid, y gwddf a'r llwybr resbiradu a gwneud y fogfa yn waeth.

Mewn ymateb i hyn, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i greu amgylchedd di-fwg i bobl nad ydynt yn dymuno ysmygu na dod i gysylltiad â mwg. Gobeithir hefyd y bydd y Polisi hwn yn annog a hybu iechyd

Polisi Prifysgol Bangor, cyn belled ag y bo'n ymarferol bosib, ac yn unol â'r gofynion statudol perthnasol ac arferion da, yw sicrhau iechyd a diogelwch y staff, y myfyrwyr ac ymwelwyr y Brifysgol.

Gwaherddir ysmygu yn holl adeiladau'r brifysgol ac mewn cerbydau sy'n eiddo i'r brifysgol neu sydd wedi eu llogi neu eu prydlesu gan y brifysgol.

Gwaherddir ysmygu hefyd ar safleoedd y brifysgol ble ceir mannau ysmygu dynodedig ac o fewn pum metr i holl adeiladau eraill y brifysgol. Ar rai o safleoedd y brifysgol gwaharddir ysmygu ledled y safleoedd hynny.

Gall y Brifysgol hefyd, yn ôl ei doethineb, gyflwyno cyfyngiadau eraill ar ysmygu.

Yr Holl Staff, Myfyrwyr, Contractwyr ac Ymwelwyr.
Pob Coleg ac Adran.
Tir ac Adeiladau'r Brifysgol.
Cerbydau o eiddo'r brifysgol, neu a brydlesir neu a rentir ganddi.

Tir cyhoeddus neu breifat nad yw'r Brifysgol yn berchen arno nac yn ei reoli.

Yn ogystal â gofynion cyffredinol y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle ac ati, mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn nodi'r cyfyngiadau ar ysmygu mewn gweithleoedd a mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig.

At ddibenion y polisi hwn, mae'r diffiniadau isod yn berthnasol:

Gwaherddir defnyddio unrhyw gynnyrch tybaco wedi ei danio, gan gynnwys sigaréts, pibellau, sigârs a shisha neu ddefnyddio sigaréts electronig (e-sigaréts)[1] neu ddyfais debyg sy'n cynhyrchu anwedd neu fwg gweladwy.

Bydd y brifysgol yn darparu adnoddau digonol i:

a. Atal ysmygu mewn unrhyw weithle.

[1] Oni bai ei fod yn rhan o weithgaredd vape cymeradwy sy'n rhan o gynhyrchiad theatraidd o fewn theatr neu man ymarfer dynodedig. Gweler 6c.